

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

8fed o Fai 2023

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher yr 17eg o Fai am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y 8fed o Fawrth 2023 – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.
 - b) HysbysfyRDDau/ byRDDau gwybodaeth
 - c) Torri gwair mynwentydd Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy 2023 – cadarnhau y trefniadau a'r asesiad risc (danfonwyd allan ichwi eisoes)
 - d) Mast ffon ger Penrhiwcul.
 - e) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy.

f) Llwybr troed o flaen rhif 8, Lawnt y Plas.

5. Ethol Swyddogion 2023-24.

a) Cadeirydd

b) Is- Gadeirydd

c) Clerc.

6. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Mawddwy ar gyfer 2023/24.

7. Derbyn ffurflenni cofrestr buddiannau wedi eu cwblhau gan Gynghorwyr (i'w danfon allan ymlaenllaw). Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog a'r asesiad risg (wedi eu dosbarthu ymlaenllaw neu ar ein gwefan) Hefyd mabwysiadu y polisiau eraill – pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth (ar y wefan)

8. Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol – Un Llais Cymru, Y Neuadd Bentref yn Dinas, Pwyllgor yr Hen Fynwent, Eco Dyfi ayyb. Ethol neu ail-ethol cynrychiolwyr o'r Cyngor.

9. Materion Cynllunio

Caniatad o osod bwrdd dehongli Maes parcio Blaen Cywarch NP5/74/AD422B, hefyd Maes parcio Llanymawddwy NP5/74/AD377A, hefyd Maes Parcio Bwlch y Groes NP5/74/AD374A – *wedi eu danfon am sylwadau eisoes*

Caniatad gosod estyniad twr 5m i'r gosodiad presennol yn Penrhiwcul, Mallwyd – NP5/74/474A – *wedi ei ddanfon allan eisoes.*

10. Materion Cyllid.

a) Cyflwyno cyfrifon 2022-23 sydd wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd heb unrhyw ymholiadau.

b) Nodi gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant a chadarnhau manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2023-24 – cyfanswm £318.56 (i'w ddanfon allan ymlaenllaw)

c) Nodi derbyn rhan gyntaf y praesept am 2023-24, sef £5,350. Nodi balansau y cyfrifon, gyda chyfeiriad at gyllideb 2023-24.

d) Nodi anfoneb Archwilio Cymru am archwiliad 2021-22 - £232.00 sydd i'w dalu.

11. Gohebiaeth

Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri – webinar Dydd Iau 8fed Mehefin dros zoom – gwahoddiad i 2 gynrychiolydd o'r Cyngor

12. Unrhyw fater arall